

APHA yn cyhoeddi darparwr archwiliadau post mortem arbenigol newydd i Gymru

Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion wedi dyfarnu'r contract am ddarparu archwiliadau post mortem wedi'u sybsideiddio yng Nghymru i Iechyd Da, sef consortiwm o bractisau milfeddygol annibynnol a leolir yng Nghymru.

Cyflwynir y gwasanaeth newydd fesul cam. I ddechrau, bydd gwasanaeth archwiliadau post mortem a fydd yn cwmpasu lleoliadau sydd o fewn awr i hen Ganolfan Ymchwiliadau Milfeddygol APHA yn Aberystwyth. Wedyn caiff gwasanaeth casglu carcasau ei gyflwyno ar gyfer Gogledd Cymru, wedi'i ddilyn gan gyfuniad o wasanaeth casglu carcasau ac is-safleoedd archwiliadau post mortem ar gyfer yr ardaloedd sy'n weddill, y penderfynir arnynt ar ôl ymgynghori â milfeddygon yn yr ardal. Cyhoeddir manylion pellach ar ddechrau 2015.

Bydd Iechyd Da yn cydweithio â staff Prifysgol Aberystwyth o hen Ganolfan Ymchwiliadau Milfeddygol APHA yn Aberystwyth. Bydd ar gael i helpu busnesau milfeddygol yng Nghymru gyda'u gwaith diagnostig o ddechrau 2015. Bydd hefyd yn rhan o rwydwaith gwyliadwriaeth sganio gwell sy'n cynnwys APHA, y proffesiwn milfeddygol ehangach a'r diwydiant da byw.

Dywedodd Rebecca Evans, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd:

"Mae'r penderfyniad i ddyfarnu'r contract hwn i Iechyd Da yn newyddion ardderchog am ei fod yn gwella mesurau i gadw golwg ar glefydau yng Nghymru. Bydd y cyhoeddiad hwn yn golygu ei bod yn haws i filfeddygon preifat a ffermwyr gael gafael ar wasanaethau archwiliadau post mortem a diagnostig. Fel y dangoswyd gan yr achosion diweddar o fflin adar, mae bygythiadau cyson i Iechyd anifeiliaid a bydd gwella'r ddarpariaeth yn atgyfnerthu'r mesurau i gadw golwg ar glefydau yma yng Nghymru ac yn helpu i ganfod a rheoli'r risgiau hyn."

Dywedodd David Thomas, Uwch Swyddog Milfeddygol Iechyd Da:

"Rwyf wrth fy modd bod y contract i ddarparu gwasanaeth archwiliadau post mortem a gwyliadwriaeth i Gymru wedi'i ddyfarnu i Iechyd Da.

Caiff y gwasanaeth ei weithredu gan Iechyd Da mewn cydweithrediad â Phrifysgol Aberystwyth a chaiff ei gyflawni yn y labordy milfeddygol yn Aberystwyth. Bydd y gwasanaeth hwn yn hwyluso'r gwaith o ganfod clefydau anifeiliaid newydd a chlefydau anifeiliaid sy'n bodoli eisoes ac yn rhoi cymorth o ansawdd uchel i filfeddygon yng Nghanolbarth, Gogledd a De-ddwyrain Cymru. Caiff cyfarfodydd eu trefnu er mwyn briffio practisau milfeddygol cyn i'r gwasanaeth ddechrau ym mis Chwefror 2015."

Dywedodd yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth:

"O gofio pwysigrwydd amaethyddiaeth anifeiliaid i economi Cymru a'r rôl sydd gan Iechyd anifeiliaid da i'w chwarae o ran sicrhau effeithlonrwydd economaidd a biolegol systemau cynhyrchu da byw, mae'r Brifysgol yn falch iawn ei bod yn cydweithio ag Iechyd Da i ddarparu'r gwasanaeth pwysig hwn i ymarferwyr milfeddygol a'u cleientiaid."

O dan y trefniadau newydd, bydd busnesau milfeddygol yng Nghymru yn gallu cael cymorth diagnostig drwy gysylltu â'u cyfleuster archwiliadau post mortem agosaf. Cyhoeddir manylion cyswllt llawn ar ddechrau 2015. Caiff yr adnodd 'site-finder', sy'n seiliedig ar godau post, ar wefan APHA ei ddiweddarau hefyd er mwyn adlewyrchu'r trefniadau newydd: <http://ahvla.defra.gov.uk/postcode/pme.asp>.

Mae'n rhaid i filfeddygon sydd am gyflwyno carcass drafod hyn yn gyntaf gyda'r cyfleuster post mortem. Codir ffi waredu am unrhyw garcas a dderbynnir heb gytundeb ymlaen llaw. Dylid anfon cyflwyniadau drwy'r post i labordy APHA yn yr Amwythig.

Ers cau safle APHA yn Aberystwyth ar 31 Awst 2014, mae carcassau wedi mynd i ganolfan gasglu yn Llanbedr Pont Steffan (neu maent wedi'u casglu ar y fferm gan ddibynnu ar leoliad y fferm) ar ôl trafod â'r Swyddog Ymchwiliadau Milfeddygol ar ddyletswydd yn swyddfa APHA yng Nghaerfyrddin. Bydd y trefniant hwn yn parhau nes y bydd y gwasanaeth newydd yn weithredol.

O ddechrau 2015 bydd angen anfon carcassau o safleoedd sydd o fewn awr i Aberystwyth i'r cyfleuster post mortem yn Aberystwyth. Mae Iechyd Da wrthi'n sefydlu gwasanaeth cludo carcassau ar gyfer ardal ehangach a fydd yn cynnwys Gogledd Cymru.

Diwedd

Nodiadau:

1. Lanswyd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ar 1 Hydref 2014. Mae'n uno'r hen Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol (AHVLA) â rhannau o'r Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (FERA) sy'n gyfrifol am iechyd planhigion a gwenyn er mwyn creu un asiantaeth sy'n gyfrifol am iechyd anifeiliaid, planhigion a gwenyn.
2. Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sy'n gweithio i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.
3. Iechyd Da yw enw masnachu Iechyd Da (Gwledig) Cyf, sef consortiwm o 38 o Bractisau milfeddygol yng Nghymru a Welsh Lamb & Beef Producers Ltd, sef cwmni cydweithredol o gynhyrchwyr sy'n cynnwys tua 8000 o ffermwyr Da Byw yng Nghymru. Mae'r Cwmni yn gyfyngedig drwy warant ac mae wedi'i greu fel consortiwm cyfrwng at ddibenion arbennig er mwyn darparu gwasanaethau milfeddygol yng Nghymru.
4. Prifysgol Aberystwyth www.aber.ac.uk: Mae Prifysgol Aberystwyth, a sefydlwyd yn 1872, yn brifysgol addysgu ac ymchwil flaenllaw a dyfarnwyd Gwobr Pen-blwydd Coroni'r Frenhines am Addysg Uwch a Phellach iddi yn 2009. Mae yn y 35ain safle am 'Ansawdd Ymchwil' (Sunday Times University Guide 2015) ac enillodd y wobwr am Gyfraniad Eithriadol i Arloesedd a Thechnoleg yng Ngwobrau Addysg Uwch y Times yn 2013. Mae'r Brifysgol yn gymuned o 12,000 o fyfyrwyr a 2,300 o aelodau o staff a'i diben yw creu cyfleoedd, ymchwil â rhagoriaeth sy'n cael effaith, addysgu sy'n ysbrydoli, ymgysylltu â'r byd, gweithio mewn partneriaeth a buddsoddi yn ein dyfodol. Rhif elusen gofrestrdig 1145141.
5. Yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, caiff contract Prifysgol Surrey ei ymestyn i gynnwys darparu gwasanaeth post mortem yn yr ardal hon.

Ymholiadau gan y cyfryngau: 01905 765212

Mae datganiadau newyddion ar gael ar ein gwefan:

www.gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency

Dilynwch ni ar Twitter: @APHAgovuk

